

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau – Y Bumed Senedd

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Y Senedd **Graeme Francis** – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2020 **Ross Davies** – Dipwrwy Glerc
Amser: 09.00 0300 200 6565
Cysylltu@senedd.cymru

Rhag cyfarfod preifat

(09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 29)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-921 Hysbysiad cynharach ynghylch cyllidebau cynghorau gan
Lywodraeth Cymru #AchubEinGwasanaethau

(Tudalennau 30 – 43)

2.2 P-05-925 Addysgu Llesiant Mislifol mewn Ysgolion: Peidio â Gadael Cymru
Tu Ôl

(Tudalennau 44 – 54)

2.3 P-05-926 Dylid Darparu Adran Blinder Cronig yng Nghymru

(Tudalennau 55 – 64)

2.4 P-05-927 Cyfleusterau toiled Changing Places

(Tudalennau 65 – 75)

2.5 P-05-928 Cael gwared ar y geiriau sy'n hyrwyddo adfer adnoddau olew a
nwy o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

(Tudalennau 76 – 86)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol



- 3.1 P-05-839 Dylid troi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ynghylch llygredd aer yn gyfraith yng Nghymru a chyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru
(Tudalennau 87 – 91)
- 3.2 P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru
(Tudalennau 92 – 98)

Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd

- 3.3 P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru
(Tudalennau 99 – 100)
- 3.4 P-05-915 Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru
(Tudalennau 101 – 102)
- 3.5 P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi
(Tudalennau 103 – 107)
- 3.6 P-05-877 Cynllun gwisgoedd ysgol ail-law i blant
(Tudalennau 108 – 110)

4 Papur i'w nodi

- 4.1 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys
(Tudalennau 111 – 113)

5 Sesiwn dystiolaeth:

9.45 – 10.30

- Kirsty Williams AC, Gweinidog dros Addysg
- Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru
- Megan Colley, Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu, Llywodraeth Cymru

- 5.1 Sesiwn dystiolaeth: P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion
(Tudalennau 114 – 128)

5.2 Sesiwn dystiolaeth: P-05-757 Cael gwarded ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol

(Tudalen 129)

5.3 Sesiwn dystiolaeth: P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol

(Tudalen 130)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitem 8, 9, 10, ac 11.

7 Trafod sesiynau tystiolaeth blaenorol

8 Trafod yr Adroddiad Drafft

8.1 Trafod yr Adroddiad Drafft: P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

(Tudalennau 131 - 145)

8.2 Ymateb Llywodraeth Cymru - P-05-916 Cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm yn lladd-dai Cymru

(Tudalennau 146 - 147)

9 Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar P-05-736 Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch

(Tudalennau 148 - 154)

10 Papur i'w nodi: Llythyr gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

(Tudalennau 155 - 156)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-05-921 Hysbysiad cynharach ynghylch cyllidebau cynghorau gan Lywodraeth Cymru #AchubEinGwasanaethau

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan UNISON Neath Port Talbot, ar ôl casglu cyfanswm o 191 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cyllidebau i gynghorau erbyn canol Ionawr 2020 fan bellaf er mwyn i awdurdodau lleol, yn gyntaf, gydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol mewn perthynas â'r broses gosod cyllidebau ar gyfer y dreth gyngor, ac yn ail fel y gallant roi cyllidebau deddfwriaethol priodol i ysgolion er mwyn iddynt hwy gydymffurfio â'u canllawiau eu hunain a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cangen Castell-nedd Port Talbot o UNISON yn credu bod pob cyngor yng Nghymru o dan bwysau cyllidebol eithafol, gydag ambell ddarpariaeth gwasanaeth wedi'u colli ac eraill ar fin cael eu colli, a chan bod adolygiad gwariant hefyd ar y gweill, nid oes gan wasanaethau cyhoeddus ddim dealltwriaeth bellach o oblygiadau'r adolygiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar 19 Tachwedd 2019, gyda'i Chyllideb Derfynol yn cael ei rhoi ym mis Chwefror, ond hyd yma does dim rhybudd o hyd pryd fydd y Gyllideb Llywodraeth Leol wirioneddol ar gael. Bydd goblygiadau deddfwriaethol ysgubol i BOB awdurdod lleol yn sgîl hyn, pan fydd yn rhaid iddynt gymeradwyo cyllidebau yn seiliedig ar ffigurau setliad drafft i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol ynghylch gosod Biliau'r Dreth Gyngor. Mae'r amserlen arfaethedig yn rhoi anawsterau real iawn i gynghorau, oherwydd bydd angen newid pob cyfarfod craffu, cyfarfodydd Cabinet dilynol a chyfarfodydd y Cyngor. Canlyniad hyn yw y gallai cyfraddau'r dreth gyngor fod wedi'u chwyddo, ac y darganfyddir yn ddiweddarach y byddai ffigurau'r setliadau wedi caniatáu rhagor o hyblygrwydd.

Cynghorau lleol yw'r prif gyflogwyr yn eu hardaloedd yn aml, a bydd unrhyw ostyngiad i'w cyllid yn cael effaith andwyol ar gyflogaeth a'r gallu i'r gwasanaethau hanfodol hyn fod yn gynaliadwy, ac aros yn fewnol.

Gwybodaeth ychwanegol:

Rydym yn llwyr gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau sydd â chysylltiadau da, sy'n fywiog, yn hyfyw ac yn gynaliadwy, gydag economi leol gref ac ansawdd bywyd da. Er

mwyn i'r weledigaeth hon lwyddo, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, sydd yn ei dro yn sicrhau diogelwch a lles ein preswylwyr ledled Cymru, a bydd canlyniadau gwell i bawb.

Daw'r cynlluniau gwariant cyfredol i ben ym mis Mawrth 2020, ond mae'r holl arwyddion presennol yn dweud wrthym na fydd yr amserlen ar gyfer ffigurau'r setliad yn rhoi unrhyw gronfeydd cymeradwy inni tan fis Mawrth 2020. Mae hyn yn warthus: ni all unrhyw gyflogwr gynnal menter gwerth miliynau o bunnoedd heb gyllideb.

Mae nifer y cynghorau sydd bellach mewn sefyllfa i osod cyllideb anghyfreithlon yn frawychus, a gwaethygir hyn gan gynigion grant heb eu hamseru, a rhai o'r rhain nad oeddent mewn llaw tan ddiwedd y flwyddyn gyllidebu.

Mae grantiau Cyllid Ewropeaidd a grantiau penodol Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n aruthrol at y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal, mae angen i ni ystyried llinellau amser wrth ddyfarnu grantiau yr ymddengys eu bod yn cael eu rhoi ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddechrau. Nid yw hyn yn gefnogol i waith cynllunio'r gweithlu nac i ddarparu gwasanaethau.

Mae angen diwygio sylweddol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor gwasanaethau lleol, ac i ddod â'r anghydraddoldebau systemig rhwng cyllido darpariaethau cyhoeddus i ben. Mae angen rhagor o ymreolaeth a rheolaeth ar awdurdodau lleol dros gynhyrchu refeniw, gyda mecanweithiau wedi'u sefydlu ar gyfer awdurdodau lleol. Mae Cyrff Gwarchod o ran Archwilio Cyhoeddus wedi bod yn tynnu sylw at y difrod sylweddol sy'n cael eu gwneud i wasanaethau hanfodol, a heb fuddsoddiad mawr yn y gwasanaethau hyn, ni fydd awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, fel yr ifanc, neu bobl oedrannus iawn, ar adeg pan mae galw cynyddol am ddarparu gwasanaethau.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru

P-05-921 Hysbysiad cynharach ynghylch cyllidebau cyngorau gan Lywodraeth Cymru #AchubEinGwasanaethau

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Ionawr 2020
Petitions Committee | 7 January 2020

Cyfeirnod: RS19/11038-4

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: [P-05-921](#)

Teitl y ddeiseb: Hysbysiad cynharach ynghylch cyllidebau cyngorau gan Lywodraeth Cymru #AchubEinGwasanaethau

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cyllidebau i gynghorau erbyn canol Ionawr 2020 fan bellaf er mwyn i awdurdodau lleol, yn gyntaf, gydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol mewn perthynas â'r broses gosod cyllidebau ar gyfer y dreth gyngor, ac yn ail fel y gallant roi cyllidebau deddfwriaethol priodol i ysgolion er mwyn iddynt hwy gydymffurfio â'u canllawiau eu hunain a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cangen Castell-nedd Port Talbot o UNISON yn credu bod pob cyngor yng Nghymru o dan bwysau cyllidebol eithafol, gydag ambell ddarpariaeth gwasanaeth wedi'u colli ac eraill ar fin cael eu colli, a chan bod adolygiad gwariant hefyd ar y gweill, nid oes gan wasanaethau cyhoeddus ddim dealltwriaeth bellach o oblygiadau'r adolygiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar 19 Tachwedd 2019, gyda'i Chyllideb Derfynol yn cael ei rhoi ym mis Chwefror, ond hyd yma does dim rhybudd o hyd pryd fydd y Gyllideb Llywodraeth Leol wirioneddol ar gael. Bydd goblygiadau



deddfwriaethol ysgubol i BOB awdurdod lleol yn sgîl hyn, pan fydd yn rhaid iddynt gymeradwyo cyllidebau yn seiliedig ar ffigurau setliad drafft i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol ynghylch gosod Biliau'r Dreth Gyngor.

Mae'r amserlen arfaethedig yn rhoi anawsterau real iawn i gynghorau, oherwydd bydd angen newid pob cyfarfod craffu, cyfarfodydd Cabinet dilynol a chyfarfodydd y Cyngor. Canlyniad hyn yw y gallai cyfraddau'r dreth gyngor fod wedi'u chwyddo, ac y darganfyddir yn ddiweddarach y byddai ffigurau'r setliadau wedi caniatáu rhagor o hyblygrwydd.

Cynghorau lleol yw'r prif gyflogwyr yn eu hardaloedd yn aml, a bydd unrhyw ostyngiad i'w cyllid yn cael effaith andwyol ar gyflogaeth a'r gallu i'r gwasanaethau hanfodol hyn fod yn gynaliadwy, ac aros yn fewnol.

Rydym yn llwyr gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau sydd â chysylltiadau da, sy'n fywiog, yn hyfyw ac yn gynaliadwy, gydag economi leol gref ac ansawdd bywyd da. Er mwyn i'r weledigaeth hon lwyddo, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, sydd yn ei dro yn sicrhau diogelwch a lles ein preswylwyr ledled Cymru, a bydd canlyniadau gwell i bawb.

Daw'r cynlluniau gwariant cyfredol i ben ym mis Mawrth 2020, ond mae'r holl arwyddion presennol yn dweud wrthym na fydd yr amserlen ar gyfer ffigurau'r setliad yn rhoi unrhyw gronfeydd cymeradwy inni tan fis Mawrth 2020. Mae hyn yn warthus: ni all unrhyw gyflogwr gynnal menter gwerth miliynau o bunnoedd heb gyllideb.

Mae nifer y cynghorau sydd bellach mewn sefyllfa i osod cyllideb anghyfreithlon yn frawychus, a gwaethygir hyn gan gynigion grant heb eu hamseru, a rhai o'r rhain nad oeddent mewn llaw tan ddiwedd y flwyddyn gyllidebu.

Mae grantiau Cyllid Ewropeaidd a grantiau penodol Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n aruthrol at y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal, mae angen i ni ystyried llinellau amser wrth ddyfarnu grantiau yr ymddengys eu bod yn cael eu rhoi ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddechrau. Nid yw hyn yn gefnogol i waith cynllunio'r gweithlu nac i ddarparu gwasanaethau.

Mae angen diwygio sylweddol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor gwasanaethau lleol, ac i ddod â'r anghydraddoldebau systemig rhwng cyllido darpariaethau cyhoeddus i ben. Mae angen rhagor o ymreolaeth a rheolaeth ar awdurdodau lleol dros gynhyrchu refeniw, gyda mecanweithiau wedi'u sefydlu ar gyfer awdurdodau lleol. Mae Cyrff Gwarchod o ran Archwilio Cyhoeddus wedi bod yn tynnu sylw at y difrod sylweddol sy'n cael eu gwneud i wasanaethau hanfodol, a heb fuddsoddiad mawr yn y gwasanaethau hyn, ni fydd awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, fel yr ifanc, neu bobl oedrannus iawn, ar adeg pan mae galw cynyddol am ddarparu gwasanaethau.

1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyllideb yn flynyddol, fel arfer yn nhymor yr hydref ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r broses hon yn cynnwys cyhoeddi cyllideb ddrafft amlinellol, cyllideb ddrafft fanwl a chyllideb derfynol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi setliad llywodraeth leol ar ôl cyhoeddi ei chyllideb ddrafft, sy'n gosod swm y Grant Cymorth Refeniw i'w ddarparu i bob awdurdod lleol; setliad yr heddlu, ynghylch faint o'r Grant Cymorth Refeniw sy'n cael ei roi i'r Heddlu; a gwybodaeth am grantiau, yn ogystal â gwybodaeth a dogfennau eraill.

Caiff proses y gyllideb ddrafft ei nodi yn **Rheol Sefydlog 20** y Cynulliad. Mae'r Rheolau Sefydlog yn mynnu bod cynnig cyllideb amlinellol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad. Rhaid iddo nodi cynlluniau cyllido a faint o adnoddau ac arian parod y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, yn ogystal â symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnodau eraill y mae'r Gweinidog yn eu hystyried yn briodol.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor Busnes am ei hamserlen arfaethedig ar gyfer trafod y gyllideb o leiaf bythefnos cyn toriad yr haf bob blwyddyn. Yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r amserlen hon, sydd fel rheol yn gorfod caniatáu wyth wythnos i'r pwyllgor cyfrifol (y Pwyllgor Cyllid) adrodd ar y cynigion cyllideb amlinellol ac o leiaf bum wythnos i bwyllgorau eraill drafod y cynigion manwl.

Ar gais y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, caiff y Pwyllgor Busnes wedyn newid yr amserlen a gyhoeddwyd.

Mae proses y gyllideb hefyd wedi'i nodi mewn **protocol** rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Mae **Deddf Llywodraeth Leol 1992** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bilio gwblhau a chymeradwyo'u cyllidebau, a gosod y dreth gyngor, cyn 11 Mawrth bob blwyddyn.

2. Amserlen Llywodraeth Cymru


Ar 8 Tachwedd 2019, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd **ddatganiad ysgrifenedig**, yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ei chyllideb, 'a hynny ar sail eithriadol', ar 16 Rhagfyr (yn ystod y toriad); yn dilyn hyn bydd datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Ionawr 2020. Dywedodd y Gweinidog fod yr amserlen wedi newid oherwydd Etholiad Cyffredinol y DU, a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr. Dywedodd y Gweinidog, ers y cyhoeddiadau cynharach ynghylch amseru'r gyllideb:

... mae etholiad cyffredinol y DU wedi'i alw ac rydym yn y cyfnod cynetholiadol erbyn hyn. Rwyf wedi trafod goblygiadau hyn o ran amseru cyllideb Llywodraeth Cymru gyda'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Cyllid ac, yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Busnes, byddwn yn gohirio cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru tan ar ôl etholiad cyffredinol y DU.

Hefyd, amlinellodd datganiad y Gweinidog fod **setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2020-21** i fod i gael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r gyllideb ddrafft. Bydd y **setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol** yn cael ei gyhoeddi ar 25 Chwefror 2020, ochr yn ochr â'r gyllideb derfynol.

Yn y datganiad hwnnw, nododd y Gweinidog yr amserlen ar gyfer y gyllideb, a amlinellir yn ffigur 1 isod (ceir copi o amserlen y gyllideb ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn atodiad y papur hwn er cymhariaeth):

Ffigur 1: Amserlen y gyllideb ddrafft 2020-21



Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datganiad Llywodraeth Cymru (8 Tachwedd 2019)

Mae amserlen ddrafft y gyllideb fel y'i nodir yn ffigur 1 yn dilyn cyhoeddiadau blaenorol gan Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi [ysgrifennu'n flaenorol at y Pwyllgor Cyllid](#) ar 5 Gorffennaf 2019 i ddweud y byddai'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd ar 10 Rhagfyr (y gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2020). Dywedodd Llywodraeth Cymru:

...rydym yn wynebu lefel ddigyffelyb o ansicrwydd ynghylch bwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Ni wyddom eto pryd y bydd yn digwydd nac â pha gyfnod y bydd yn ymdrin. Cafwyd sylwadau yn ystod y dyddiau diwethaf gan yr ymgeiswyr ar gyfer arwain y Blaid Geidwadol ac, yn y pen draw, Brif Weinidog y DU, ynghylch y posibilrwydd y bydd Llywodraeth newydd y DU'n cyhoeddi ei chyllideb ym mis Medi. Am y rhesymau hyn, mae'n anodd rhoi sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch pa ddyddiadau y byddwn yn cyhoeddi cyllidebau drafft a therfynol 2020-21.

Yn y llythyr hwn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi hefyd, pe bai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei chyllideb yn gynharach na'r disgwyl, y byddai hefyd yn ceisio dwyn dyddiad cyhoeddi ei chyllideb ymlaen.

Ar 4 Medi, yn dilyn [Cylch Gwario Llywodraeth y DU ar gyfer 2019](#), amlinellodd y Gweinidog mewn [datganiad ysgrifenedig](#) y byddai Llywodraeth Cymru yn dwyn dyddiad cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ymlaen, ac ar 13 Medi, [ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Cyllid](#) i gadarnhau ei bod am ddwyn dyddiad cyhoeddi'r gyllideb ymlaen i 19 Tachwedd.

3. Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Fe wnaeth y [Pwyllgor Busnes](#) drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2019.

Er mwyn llywio'i waith craffu, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid [ymgyngoriad ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21](#) rhwng 16 Gorffennaf a 25 Medi 2019. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ddigwyddiad i randdeiliaid yn Aberystwyth ar 27 Mehefin 2019, lle [trafodwyd blaenoriaethau](#) ar gyfer cyllideb 2020-21, a chynhaliwyd [dadl ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru](#) yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Medi 2019.


Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sesiwn '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Cyllideb Llywodraeth Leol](#)', ar

23 Hydref 2019, lle cafwyd tystiolaeth gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae amryw bwyllgorau hefyd [wedi ysgrifennu at aelodau perthnasol o Lywodraeth Cymru](#), gan nodi eu disgwyliadau ynghylch y wybodaeth gyllidebol a fydd yn cael ei darparu iddynt.

4. Atodiad

Ffigur 2: Amserlen Cyllideb Ddrafft 2019-20



Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru (noder: trafodwyd cyllideb derfynol 2019-20 ar 15 Ionawr 2019)



Ein cyf/Our ref JJ/06736/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

3 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref at Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a minnau ynglŷn â deiseb a dderbyniwyd oddi wrth UNSAIN Castell-nedd Port Talbot, yn galw am hysbysiadau cynharach mewn perthynas â chyllidebau cynghorau. Atebaf ar ran y ddwy ohonom yn rhinwedd fy nghyfrifoldeb dros lywodraeth leol.

Rwy'n deall bod angen sicrwydd ynglŷn â darparu manylion eu cyllid i awdurdodau lleol cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae bob amser yn fwriad gan Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol cyn gynted ag sy'n bosibl, a hynny yn unol â chyfyngiadau amserlenni Cyllideb Llywodraeth y DU a Chyllideb Llywodraeth Cymru. Rhaid i'n hamserlen hefyd wrth reswm sicrhau bod digon o amser i graffu ar y Setliad yn y Cynulliad.

Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ddiweddariad i'r Aelodau ym mis Medi ar oblygiadau Cylich Gwario 2019 Llywodraeth y DU i Gymru ac o'i chynlluniau ar gyfer symud dyddiad cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ymlaen i 19 Tachwedd. Roeddwn yn bwriadu cyhoeddi setliad dros dro llywodraeth leol ar 26 Tachwedd, wythnos ar ôl Cyllideb Ddrafft arfaethedig Llywodraeth Cymru. Rhoddais wybod i gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol am yr amserlen arfaethedig yn ystod cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru ar 25 Medi. Mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU i gynnal etholiad cyffredinol wedi tarfu ar y cynlluniau hyn yn awr wrth gwrs, ac rydym yn awr yn y cyfnod cyn yr etholiad.

Mae bob amser yn uchelgais gennym, fodd bynnag, i gyhoeddi ein cynlluniau cyn y Nadolig er mwyn cefnogi partneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid gyda'u rhag-gynlluniau ariannol ac ar sail eithriadol byddwn yn awr yn cyhoeddi Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ar 16 Rhagfyr yn ystod y toriad. Bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn gwneud datganiad ar 7 Ionawr, y dyddiad cynharaf posibl, yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb ddrafft. Gan ystyried goblygiadau proses ein cyllideb i lywodraeth leol, byddwn yn cyhoeddi setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2020-21 ar yr un diwrnod â'r Gyllideb ddrafft er mwyn i awdurdodau lleol allu ymgysylltu â'u cymunedau a chynnal eu trefniadau craffu democrataidd eu hunain cyn pennu eu cyllidebau a'u cyfraddau'r dreth gyngor cyn 11 Mawrth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 40
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ganlyniad, wedi i Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar ein cynlluniau, cynhelir y ddatl ynglŷn â'r Gyllideb ddrafft ar 4 Chwefror. Byddwn yn cyhoeddi'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2020-21 a setliad terfynol llywodraeth leol ar gyfer 2020-21 ar 25 Chwefror, a chynhelir dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth a 4 Mawrth yn ôl eu trefn.

Gallaf eich sicrhau ein bod yn gweithio ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod gennym ddarlun ehangach sydd mor glir â phosibl o'r cyllid a gaiff llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, a hynny cyn gynted ag sy'n bosibl.

Pan gyfarfûm â'r Is-grŵp Cyllid a'r Cyngor Partneriaeth yn gynharach y mis hwn, cawsom sgysiau agored a gonest ynglŷn â'r pwysau sydd ar gyllideb llywodraeth leol a beth yn union yw'r blaenoriaethau. Roedd yr arweinwyr yn gwbl glir, ar ôl blynyddoedd o ostyngiadau termau real mewn setliadau cyllid, nad oes modd iddynt dorri mwy ar wasanaethau a bod gan rai ohonynt benderfyniadau real iawn ac anodd iawn i'w gwneud ynglŷn â pha wasanaethau y bydd rhaid iddynt o bosibl roi'r gorau i'w cyflenwi yn y dyfodol. Rwy'n ymwybodol hefyd fod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi annerch penwythnos polisi UNSAIN Cymru ar 18 Hydref i egluro dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â phroses y Gyllideb.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a bydd yn parhau i wneud popeth yn ei gallu i'w diogelu rhag effeithiau gwaethaf y cyni cyllidol, a darparu iddynt y setliad gorau posibl o dan yr amgylchiadau. Byddwn innau'n esgeulus, fodd bynnag, pe na bawn yn ailadrodd yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwbl glir yn ei gylch droeon yn y Senedd. Nid yw'r penawdau yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r Cylch Gwario Un Flwyddyn hwn yn troi cefn ar gynt cyllidol fel yr hawliwyd gan y Canghellor. Mewn gwirionedd, bydd Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 2% yn is o hyd, neu £300 yn llai mewn termau real, nag yn 2010-11. Bydd rhaid inni felly wneud penderfyniadau anodd dros yr wythnosau sydd i ddod. Nid yw ein grym gwario yn codi yn ôl i'r un lefel ag yr oedd ddegawd yn ôl hyd yn oed gyda'r cyllid ychwanegol hwn.

Caiff ein penderfyniadau cyllidebol eu gwneud yn unol â'r sefyllfa hon ar hyn o bryd.

Yn gywir



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government



11th December, 2019

Janet Finch Saunders AM Petitions Committee Chair

Julie James AM Minister for Housing & Local Government

REF: JJ/06736/19

Dear Janet & Julie,

Firstly, may we express our thanks for taking into consideration our demands laid down in our e-petition submitted to you.

UNISON Neath Port Talbot Branch believes that in order for local authorities to comply with all legislative requirements of the budget setting process for council tax, Welsh Government must inform local authorities of their settlements as early as is practicable. This then makes possible that they can give the required, legislative budgets to schools in a timely manner, in order for them to be in compliance with policy as set by Welsh Government. This enables local government to have the ability to plan the workforce and in the process giving stability to both service delivery and the communities they serve.

We believe that every council in Wales is under extreme budgetary pressure, with some services on the brink of collapse whilst local authorities review or cut budgets to ensure that they comply with additional pressures of service delivery and audit requirements to produce a balanced budget, so UNISON are encouraged by Julie's statement to UNISON on the 25th October and the measures contained within it.

The longer the delay in informing local authorities, the more this will hinder the investment that authorities can provide in supporting Welsh Government's vision that everybody in Wales should live in well-connected, vibrant, viable and sustainable communities with a strong local economy and a good quality of life. In order for this

UNISON Office, c/o Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ

Tel : 01639 763820 Email : unison@npt.gov.uk


Tudalen y pecyn 42

vision to succeed, significant reform and investment is required to ensure the long term financial sustainability of the currently fragile public services across Wales.

We request that you ensure local authorities have appropriate budgets in order to safeguarding public services across Wales, which will in turn ensure the safety and well-being of our residents across Neath Port Talbot and across Wales, whilst fully acknowledging that Welsh Government have endeavoured to protect all residents of Wales with a backdrop of austerity led by a Westminster agenda.

May we also take this opportunity to encourage this more considered approach to local government finance and look forward to a more healthy settlement figure in the forthcoming budget.

Kind regards,



Jane Gebbie
Branch Secretary



Mark Fisher
Branch Chair

UNISON Office, c/o Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ

Tel : 01639 763820 Email : unison@npt.gov.uk

Tudalen y pecyn 43

Eitem 2.2

P-05-925 Addysgu Llesiant Mislifol mewn Ysgolion: Peidio â Gadael Cymru Tu Ôl

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jade Morgan, ar ôl casglu cyfanswm o XX lofnodion ar bapur.

Geiriad y ddeiseb:

Fy enw i yw Jade, ac am 15 mlynedd dywedwyd wrthyf i fod y boen ddifrifol yr oeddwn yn ei phrofi fel rhan o'm cylchred mislifol yn gwbl normal.

Roeddwn i'n dioddef o boen enbyd, blinder, a phroblemau cysylltiedig â'r coluddyn a'r bledren – a hyn oll wrth geisio mynd drwy'r ysgol, mynd drwy oed aeddfedrwydd, a phasio fy arholiadau.

Byddwn i wedi hoffi gwybod nad oedd yr hyn yr oeddwn yn ei brofi yn normal – ond yn hytrach symptomau cyflwr cyffredin o'r enw endometriosis sy'n effeithio ar 1 o bob 10 menyw o'r oed aeddfedrwydd i'r menopos. Dim ond un o lawer o gyflyrau mislifol sy'n effeithio ar bobl ifanc yw endometriosis – mae eraill yn cynnwys PCOS, PMDD, ac adenomyosis. Nid wyf am i unrhyw un sy'n dioddef o gyflwr iechyd mislifol wneud hynny ar ei phen ei hun fel y gwnes i.

Drwy weithio gydag Endometriosis UK, fy ngobaith yw y gallwn ni lwyddo i berswadio'r Cynulliad Cenedlaethol i addysgu lles mislifol mewn ysgolion. Yn ogystal â helpu i chwalu'r tabŵau ynghylch iechyd mislifol ac annog pobl i siarad yn agored am eu mislif, byddai hyn hefyd yn addysgu am ba brofiadau sy'n normal a pha brofiadau nad ydynt yn normal.

Pe bawn i'n cael fy addysgu yn yr ysgol am ba brofiadau sy'n normal a pha brofiadau nad ydynt yn normal o ran poen sy'n gysylltiedig â mislif, gallwn i fod wedi gofyn am help ac osgoi blynyddoedd o ddryswch a thorcalon.

I lawer, mae'r ysgol yn gyfnod hapus i edrych yn ôl arno. Ac er fy mod yn bendant i mi gael cyfnodau da, y peth rwy'n ei gofio fwyaf yw cwmpo i gysgu yng nghefn y dosbarth a gorfod rhoi'r gorau i gymnasteg ysgol. Byddai athrawon yn fy nhrin i fel nad oeddwn i eisiau bod yno, ac nid oedden nhw hyd yn oed yn gofyn pam. Mewn gwirionedd, roeddwn i'n rhy flinedig ac mewn gormod o boen i wneud unrhyw beth.

O 2020, bydd plant yn Lloegr yn dysgu am lesiant mislifol fel rhan o'r cwricwlwm ysgolion. Dyna un pwnch y gallaf i ond dymuno iddo fod ar y cwricwlwm pan oeddwn i yn yr ysgol. Efallai na fyddai athrawon wedi fy anwybyddu i, ond yn hytrach wedi fy ngalluogi i gael yr help yr oedd ei angen arnaf.

Er bod y ffaith y bydd y rheini yn Lloegr yn dechrau dysgu am lesiant mislifol yn gam enfawr ymlaen, rhaid peidio â gadael Cymru tu ôl. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn adolygu'r cwricwlwm ac mae gennym gyfle i sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael yr addysg y mae ei hangen arnynt.

A fyddech cystal â llofnodi fy neiseb i wneud llesiant mislifol yn rhan o'r cwricwlwm Cymreig.

Gyda'n gilydd, gallwn ddileu'r stigma a rhoi i blant â chyflyrau mislifol y gefnogaeth y maent yn ei haeddu. O'r diwedd.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru

Addysgu llesiant mislifol mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Ionawr 2020
Petitions Committee | 7 January 2020

Cyfeirnod: RS19/1116

Rhif y ddeiseb: P-05-925

Teitl y ddeiseb: Addysgu llesiant mislifol mewn ysgolion: peidio â gadael Cymru tu ôl

Geiriad y ddeiseb: Fy enw i yw Jade, ac am 15 mlynedd dywedwyd wrthyf i fod y boen ddifrifol yr oeddwn yn ei phrofi fel rhan o'm cylchred mislifol yn gwbl normal. Roeddwn i'n dioddef o boen enbyd, blinder, a phroblemau cysylltiedig â'r coluddyn a'r bledren - a hyn oll wrth geisio mynd drwy'r ysgol, mynd drwy oed aeddfedrwydd, a phasio fy arholiadau.

Byddwn i wedi hoffi gwybod nad oedd yr hyn yr oeddwn yn ei brofi yn normal - ond yn hytrach symptomau cyflwr cyffredin o'r enw endometriosis sy'n effeithio ar 1 o bob 10 menyw o'r oed aeddfedrwydd i'r menopos. Dim ond un o lawer o gyflyrau mislifol sy'n effeithio ar bobl ifanc yw endometriosis - mae eraill yn cynnwys PCOS, PMDD, ac adenomyosis. Nid wyf am i unrhyw un sy'n dioddef o gyflwr iechyd mislifol wneud hynny ar ei phen ei hun fel y gwnes i.

Drwy weithio gydag Endometriosis UK, fy ngobaith yw y gallwn ni lwyddo i berswadio'r Cynulliad Cenedlaethol i addysgu lles mislifol mewn ysgolion. Yn ogystal â helpu i chwalu'r tabŵau ynghylch iechyd mislifol ac annog pobl i siarad yn agored am eu mislif, byddai hyn hefyd yn addysgu am ba brofiadau sy'n normal a pha brofiadau nad ydynt yn normal.

Pe bawn i'n cael fy addysgu yn yr ysgol am ba brofiadau sy'n normal a pha brofiadau nad ydynt yn normal o ran poen sy'n gysylltiedig â mislif, gallwn i fod wedi gofyn am



help ac osgoi blynyddoedd o ddryswch a thorcalon.

I lawer, mae'r ysgol yn gyfnod hapus i edrych yn ôl arno. Ac er fy mod yn bendant i mi gael cyfnodau da, y peth rwy'n ei gofio fwyaf yw cwmpo i gysgu yng nghefn y dosbarth a gorfod rhoi'r gorau i gymnasteg ysgol. Byddai athrawon yn fy nhrin i fel nad oeddwn i eisiau bod yno, ac nid oedden nhw hyd yn oed yn gofyn pam. Mewn gwirionedd, roeddwn i'n rhy flinedig ac mewn gormod o boen i wneud unrhyw beth.

O 2020, bydd plant yn Lloegr yn dysgu am lesiant mislifol fel rhan o'r cwricwlwm ysgolion. Dyna un pwnc y gallaf i ond dymuno iddo fod ar y cwricwlwm pan oeddwn i yn yr ysgol. Efallai na fyddai athrawon wedi fy anwybyddu i, ond yn hytrach wedi fy ngalluogi i gael yr help yr oedd ei angen arnaf. Er bod y ffaith y bydd y rheini yn Lloegr yn dechrau dysgu am lesiant mislifol yn gam enfawr ymlaen, rhaid peidio â gadael Cymru tu ôl.

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn adolygu'r cwricwlwm ac mae gennym gyfle i sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael yr addysg y mae ei hangen arnynt.

1. Addysg mislif yn Lloegr

Yn Lloegr, mae'r [Rheoliadau Addysg Cydberthynas, Addysg Cydberthynas a Rhyw ac Addysg Iechyd \(Lloegr\) 2019](#) yn gwneud addysg cydberthynas yn orfodol i bob disgybl sy'n derbyn addysg gynradd ac addysg rhyw a chydberthynas yn orfodol i bob disgybl sy'n derbyn addysg uwchradd. Maent hefyd yn gwneud addysg iechyd yn orfodol ym mhob ysgol ac eithrio ysgolion annibynnol. Cyhoeddodd yr Adran Addysg yn Lloegr ei chanllawiau statudol, [Addysg Cydberthynas, Addysg Cydberthynas a Rhyw ac Addysg Iechyd](#) ym mis Mehefin 2019. Yn Lloegr, bydd cwricwlwm newydd yn orfodol o fis Medi 2020, ond anogir ysgolion i fabwysiadu'r cwricwlwm newydd yn gynnar o fis Medi 2019. Mewn perthynas â'r mislif, mae'r canllawiau'n nodi:

Puberty including menstruation should be covered in Health Education and should, as far as possible, be addressed before onset.

Maent hefyd yn nodi:

The onset of menstruation can be confusing or even alarming for girls if they are not prepared. Pupils should be taught key facts about the menstrual cycle including what is an average period, range of menstrual products and the implications for emotional and physical health.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

2.1. Iechyd a llesiant yn y cwricwlwm

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yn amlinellu sut y bydd addysg mislif yn cael ei chynnwys yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, yn benodol yn y datganiad Beth sy'n Bwysig ar Ddatblygu Iechyd Corfforol a Lles yn y Cwricwlwm newydd i Gymru 2022. Er nad yw'r canllawiau statudol drafft yn cynnwys addysg mislif, mae'r Gweinidog yn nodi, yn dilyn adborth, dod y Datganiad Beth sy'n Bwysig perthnasol yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod modd nodi cyflyrau iechyd menywod. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog hefyd yn nodi y bydd ysgolion yn gallu datblygu eu cwricwlwm ysgol eu hunain gyda chymorth y canllawiau statudol.

2.2. Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Fel y mae'n sefyll, mae gan riant disgybl mewn ysgol yr hawl i dynnu ei blentyn yn ôl o addysg rhyw (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol), oni bai ei bod yn rhan o raglen astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dim ond rhiant sy'n cael gofyn am dynnu plentyn yn ôl. Felly, ni all disgybl o unrhyw oedran, gan gynnwys y rheini sydd yn y chweched dosbarth, dynnu ei hun yn ôl ar unrhyw adeg a rhaid iddo ddibynnu ar y rhiant i wneud hynny drosto.

Rhwng 18 Chwefror 2019 ac 1 Ebrill 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y Canllawiau drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r canllawiau drafft yn awgrymu bod ysgolion yn defnyddio canllawiau technegol UNESCO ar gyfer addysg rhywioldeb i gefnogi'r gwaith o gynllunio'u cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r canllawiau technegol yn olrhain dilyniant ar gyfer plant 5-18 oed ar draws wyth maes thematig, gan gynnwys y corff dynol a datblygiad; ac iechyd rhywiol ac iechyd atgenhedlol. Mae canllawiau UNESCO yn cynnwys enghreifftiau o addysgu sy'n briodol i oedran ynghylch mislif.

Fe wnaeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol - Cynigion ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd (28 Ionawr 2019), amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg rhyw yn y cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn cynnwys bod addysg cydberthynas a rhywioldeb yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd i Gymru yn orfodol ym mhob ysgol a gynhelir a lleoliadau meithrin a ariennir ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, ond yn ddewisol i'r disgyblion hynny yn y chweched dosbarth.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 3 Hydref 2019, dywedodd y Gweinidog Addysg ei bod:

[yn] awyddus i sicrhau ei bod yn ofynnol i bob plentyn a pherson ifanc astudio Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd, yn hytrach na pharhau â'r anomaledd y gall rhieni benderfynu atal eu plant rhag mynychu'r gwersi craidd penodol hyn.

Rhwng 3 Hydref 2019 a 28 Tachwedd 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar effaith y cynnig i newid gallu rhieni i dynnu eu plant allan o'r pynciau hyn.

2.3. Tlodi mislif

Ar 15 Ebrill 2019, fe wnaeth y Prif Weinidog gyhoeddi grant urddas yn ystod mislif i ysgolion o £2.3 miliwn. Diben y grant yw darparu ystod o gynhyrchion mislif i ferched yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 23 Mawrth 2018 y byddai awdurdodau lleol yn cael £440,000 am ddwy flynedd (hyd at 2020) i fynd i'r afael â thlodi mislif yn eu cymunedau lle mae lefelau amddifadedd ar eu huchaf. Yn ogystal, byddai £700,000 o gyllid cyfalaf i wella cyfleusterau a chyfarpar mewn ysgolion.

3. Camau gweithredu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 2 Mai 2019, fe wnaeth dadl gan Aelod unigol yn y Cyfarfod Llawn ynghylch tlodi mislif a stigma alw ar Lywodraeth Cymru, ymhlith pethau eraill, i ystyried galwadau i wella addysg ar y pwnc. Wrth ymateb i'r ddadl, dywedodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James:

Looking forward, these issues are going to be covered under the new curriculum, which will consider how the school environment supports the social, emotional, spiritual and physical health and well-being of pupils, and will be instrumental in supporting one of the main aims of the new curriculum and assisting our children to become healthy, confident individuals.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-925
Ein cyf/Our ref KW/07435/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

6 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

P-05-925 Addysgu Llesiant Mislifol mewn Ysgolion: Peidio â Gadael Cymru Tu Ôl

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Hydref mewn perthynas â'r ddeiseb uchod ynghylch llesiant mislifol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor.

Bydd Iechyd a Lles yn un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) a fydd yn graidd i strwythur y cwricwlwm newydd. Bydd y MDPh hwn yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y maent eu hangen i ofalu am eu lles eu hunain, nid yn unig yn gorfforol ond hefyd o ran iechyd meddwl a'u lles cymdeithasol ac emosiynol. Mae hon yn rhan arloesol o'r cwricwlwm newydd a'i diben yw sicrhau bod dysgu a chymorth yn cael eu darparu i holl bobl ifanc Cymru mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol a lles cymdeithasol ac emosiynol. Mae MDPh Iechyd a Lles wedi'i gynllunio i gefnogi datblygu elfennau sylfaenol iechyd a lles yn ein dysgwyr, ac ar yr un pryd i alluogi gweithwyr proffesiynol i lunio cynnwys penodol sy'n addas i'w dysgwyr.

Yn dilyn cau pen y mwdwl ar y cyfnod adborth diweddar ac ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol, rydym wrthi'n mireinio'r cwricwlwm newydd. Fel rhan o'r broses hon, rydym yn dymuno sicrhau bod y dysgu a wneir yn y MDPh hwn yn helpu dysgwyr i adnabod symptomau neu broblemau ynghylch eu hiechyd corfforol ac i chwilio am wybodaeth a chymorth i ymateb iddynt.

Mae'r dysgu a wneir o fewn y datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig 'Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes' wedi cael ei ddiwygio'n benodol er mwyn sicrhau y gellir nodi cyflyrau iechyd menywod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 50
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O fewn hyn, mae dysgu sy'n cyfeirio at gyflyrau a sefyllfaoedd sy'n cael effaith ar iechyd a lles ac mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at newidiadau corfforol (gan gynnwys newidiadau cyfnod y glasoed) ac amrywiaeth o gyflyrau iechyd. Mae'r dilyniant hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn deall sut mae cyflyrau, sefyllfaoedd a newidiadau corfforol yn cyd-ymweithio i gael effaith ar iechyd a lles. Mae hefyd yn sicrhau bod dysgwyr yn gwybod sut i ymateb i'r cyflyrau hyn a'u rheoli a ble a phryd i chwilio am help a chynngor. Bydd y diwygiadau hyn i'r cynnwys yn ei gwneud yn bosibl i ysgolion ystyried lles mislifol wrth fynd ati i gynllunio eu cwricwlwm.

Yn ogystal, byddwn yn mireinio'r canllawiau fel eu bod yn cefnogi dysgwyr i adnabod newidiadau yn eu hiechyd corfforol ac i chwilio am help a chefnogaeth. Bydd y canllawiau'n cynnwys amrywiaeth o gyflyrau.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys fframwaith cenedlaethol, ar lefel uchel, i alluogi ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, a bydd ei bwyslais ar gyd-destun a lleoliad ysgolion unigol yn sicrhau eu bod yn gallu bod yn hyblyg. Byddwn hefyd yn creu fframwaith deddfwriaethol eglur i ategu'r cwricwlwm newydd. Bydd yn cynnig llawer mwy o hyblygrwydd o ran beth i'w addysgu a sut, ynghyd â disgwyliadau cenedlaethol clir o ran ei gwmpas ac ar gyfer dilyniant o'i fewn.

Roedd y cwricwlwm presennol yn prysur orlenwi ac roedd holl swmp y cynnwys penodedig yn ei gwneud yn anodd i'n hathrawon ei gyflwyno. Am y rheswm hwn, ni fydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys rhestr fanwl o bynciau i weithwyr proffesiynol eu haddysgu. Rydyn ni'n symud oddi wrth restr ragnodedig o'r hyn y dylai plant ei wybod ar gyfnodau allweddol yn eu haddysg, oherwydd bod athrawon yn dweud wrthym nad dyma'r dull gorau. Nid yw hyn yn golygu y bydd plant ar eu colled ac na fyddant yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau bywyd neu wybodaeth bwysig. Yn hytrach, bydd Cwricwlwm i Gymru 2022 yn darparu fframwaith o ganllawiau statudol i gefnogi ac arwain gweithwyr proffesiynol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu fframwaith cenedlaethol ar lefel uchel, ond bydd ysgolion yn datblygu eu cwricwla eu hunain ar lefel yr ysgol, gyda chymorth canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg eang a chytbwys. Bydd ymarferwyr yn cael mwy o hyblygrwydd i ddewis y cynnwys ac adnoddau penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun arbennig nhw. Fodd bynnag, mae cyfarwyddiadau pendant y datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn sicrhau y bydd cyfleoedd i bob dysgwr ennill gwybodaeth werthfawr ynghylch cyfnod y glasoed a'r amrywiaeth o gyflyrau sy'n dod yn ei sgil.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

To: Petitions Committee
From: Endometriosis UK
Subject: Menstrual Wellbeing Petition

10 December 2019

Introduction

Menstrual wellbeing affects significant numbers of children and young adults, with common conditions affecting large numbers, for example endometriosis - 10% of women, fibroids - 20%, adenomyosis - 10%; Polycystic Ovary Syndrome -10%. Yet diagnosis can take many years, for example the average length of time to diagnosis for endometriosis is 7.5 years.

Diagnosis can be delayed due to lack of awareness of what is 'normal' for menstrual wellbeing and those suffering not seeking help, and the taboo of talking about menstrual issues. There is clearly a key educational role needed to enable better awareness and understanding of menstrual wellbeing and overcome the taboo, so those suffering are able to seek help.

Our thoughts on the attached document

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Hydref 2019 at Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, ynglŷn â thoiledau 'Mannau Newid' (Changing Places). Rwy'n ymateb am fod Rheoliadau Adeiladu a Chynllunio yn fy mhortffolio i.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ategu gan ganllawiau sy'n annog y rhai sy'n ceisio caniatâd i godi adeiladau masnachol cyhoeddus a newydd i gynnwys cyfleuster toiled Mannau Newid hygyrch yn eu cynlluniau, yn ogystal â thoiledau hygyrch safonol.

Mewn rhai adeiladau mae'r Rheoliadau Adeiladu eisoes yn annog datblygwyr i ddarparu toiled mawr neillryw sy'n cynnwys bwrdd newid ar gyfer oedolion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn ystyried sut y gellid atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon i gynyddu nifer y toiledau Mannau Newid mewn adeiladau cyhoeddus mawr.

Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

- Gwella'r canllawiau yn Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu (Mynediad at Adeiladau a'r Defnydd ohonynt);
- Sicrhau bod rhagor o doiledau Mannau Newid yn cael eu darparu drwy'r broses gynllunio, lle mae Strategaeth Toiledau awdurdod lleol yn dangos bod angen lleol;

Yn ogystal, rydym yn ystyried ei gwneud yn ofynnol darparu toiledau Mannau Newid mewn rhai prosiectau sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dim ond mewn rhai amgylchiadau lle mae gwaith yn cael ei wneud y mae'r Rheoliadau Adeiladu'n berthnasol. Mae angen i unrhyw newid arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu gael ei ategu gan gamau gweithredu eraill sydd â'r nod o gynyddu nifer y toiledau Mannau Newid sy'n cael eu darparu.

Pan fyddaf wedi derbyn eu cyngor, byddaf yn gallu ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r canllawiau yn y Rheoliadau Adeiladu. Bydd unrhyw newidiadau'n destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn gywir,



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

P-05-927 Changing Places toilet facilities, Correspondence – Petitioner to Committee, 10.12.19

Thank you for your email in conjunction with our petition. The document you sent goes some way to address the issues, but unfortunately not far enough. What we have uncovered is the fact Changing Places are unequally distributed from county to county. For example, Swansea has 7 Changing Places throughout the city, but here in Llanelli we don't have any in town centre, we've recently had one in Pembrey County Park, but that's not convenient if you're planning a theatre trip in Llanelli town centre. For such a large county Carmarthenshire only has 4 Changing Places facilities, 1 in Carmarthen that isn't even fully equipped, so not officially registered on Changing Places website. Tesco in Ammanford has a Changing Places facility, but yet Tesco in Trostre park Llanelli hasn't got one, with such a high footfall we as a group are dumbfounded as to why there isn't one in that area. We have spoken to so many people who can't participate in everyday activities as are too scared to leave home in case they need the toilet. In this day & age this shouldn't be happening. We have spoken to WWT Llanelli Wetlands Centre & they would like to provide a Changing Places facility but are unaware as to whom they turn to for funding. We are aware that there is funding but are confused ourselves as to how the criteria works. We believe this should be made available to businesses & companies that want to be more inclusive to their visitors. Some areas of Wales have higher proportion of Changing Places than others, we believe this is disproportionately unjust. What makes Swansea, for example, more deserving than Llanelli? Where a Town centre doesn't currently have a Changing Places facility, we believe a Mobiloo or a Mobile Changing Places facility needs to be hired in the interim until one is provided. Being encouraged to include Changing Places facility in plans for new builds we believe doesn't go far enough, especially when it's a Public Building. We believe they should be a legal requirement. We know in Carmarthenshire toilet strategy there showed a need for Changing Places facilities. But again, it is very ambiguous as to who is meant to fund them, and how to obtain the funding. We hope our petition will bring this important issue back to the forefront of discussions so that in 2020 we can make Wales a more Inclusive society for all.

Diolch

Llanelli Changing Places Campaign Group

Eitem 2.5

P-05-928 Cael gwared ar y geiriau sy'n hyrwyddo adfer adnoddau olew a nwy o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Susanna Kenyon, ar ôl casglu 80 o lofnodion ar-lein a 173 ar bapur, sef cyfanswm o 253 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Gan fod eich Llywodraeth bellach wedi datgan argyfwng hinsawdd, gofynnwn y dylid cael gwared ar y geiriau hyn o'r Cynllun Morol drafft: "manteisio i'r graddau mwyaf posibl yn economaidd ar ddatblygu ac adfer adnoddau olew a nwy'r DU er mwyn darparu cyflenwad diogel a dibynadwy o danwyddau ffosil i fusnesau a defnyddwyr yng Nghymru a'r DU".

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Deiseb P-05-928: Cael gwared ar y geiriau sy'n hyrwyddo adfer adnoddau olew a nwy o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Ionawr 2020
Petitions Committee | 7 January 2020

Cyfeirnod: RS19/11116-4

Rhif y ddeiseb: P-05-928

Teitl y ddeiseb: Cael gwared ar y geiriau sy'n hyrwyddo adfer adnoddau olew a nwy o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Geiriad y ddeiseb: Gan fod eich Llywodraeth bellach wedi datgan argyfwng hinsawdd, gofynnwn y dylid cael gwared ar y geiriau hyn o'r Cynllun Morol drafft: "manteisio i'r graddau mwyaf posibl yn economaidd ar ddatblygu ac adfer adnoddau olew a nwy'r DU er mwyn darparu cyflenwad diogel a dibynadwy o danwyddau ffosil i fusnesau a defnyddwyr yng Nghymru a'r DU".

1. Cyflwyniad

Ar 7 Rhagfyr 2017 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft. Cafwyd 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Gorffennaf 2018. Cafodd y cynllun a fabwysiadwyd ei gyhoeddi ar 12 Tachwedd 2019, ochr yn ochr â sawl dogfen arall, gan gynnwys dogfen yn crynhoi'r newidiadau a wnaed.



Un o swyddogaethau allweddol y cynllun morol yw nodi'r polisiau sydd wedi'u llunio ar gyfer datblygu ardal y cynllun morol yn gynaliadwy, a'r polisiau sy'n gysylltiedig â'r broses honno. Mae ardal cynllunio morol Cymru yn cynnwys y rhanbarth ar y glannau a'r môr mawr, sy'n cynnwys oddeutu 32,000 km² o fôr a 2,120 km o forlin.

Mae'r cynllun drafft yn cynnwys nifer o gydrannau allweddol: gweledigaeth; 13 o amcanion; 25 o bolisiau cyffredinol; a 17 o bolisiau ar gyfer y sector. Ffocws y ddeiseb hon yw geiriad yr amcan ar gyfer y sector olew a nwy yn y ***cynllun drafft***:

“Manteisio i'r graddau mwyaf posibl yn economaidd ar ddatblygu ac adfer adnoddau olew a nwy'r DU er mwyn darparu cyflenwad diogel a dibynadwy o danwyddau ffosil i fusnesau a defnyddwyr yng Nghymru a'r DU”.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mai bwriad amcanion y sectorau yn y cynllun drafft yw mynegi cyflwr arfaethedig y sectorau yn y dyfodol a darparu cyd-destun ar gyfer polisiau'r sectorau hynny. Cafodd amcan y sector hwn ei gynnwys yn y cynllun drafft, ochr yn ochr â pholisiau ar gyfer y sector olew a nwy.

Mae amcan y sector olew a nwy, sef yr amcan sydd wedi'i amlygu yn y ddeiseb hon, wedi cael ei newid. Trafodir yr amcan diwygiedig a'r polisiau cysylltiedig yn y papur briffio hwn.

2. Cefndir deddfwriaethol

Sefydlodd ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** system ar gyfer cynllunio morol ym moroedd y DU. Mae'r Ddeddf yn nodi mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio morol ar gyfer rhanbarthau'r glannau a'r môr mawr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r broses o reoli gweithgareddau yn nyfroedd Cymru wedi'i rhannu rhwng y swyddogaethau sydd wedi'u datganoli a'r swyddogaethau a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. Felly, cafodd y cynllun drafft ei fabwysiadu gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Cafodd ***Datganiad Polisi Morol y DU (yr MPS)*** ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2011. Mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau morol yn y DU ac yn darparu'r cyd-destun polisi lefel uchel ar gyfer cynllunio morol. Bwriad yr MPS yw hwyluso'r broses o ddatblygu cynlluniau morol yn unol â gweledigaeth y DU ar gyfer sicrhau cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol.

Mae'n ofynnol bod cynlluniau morol yn cael eu seilio ar ecosystemau, yn unol â Chyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE 2008 a Chyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol yr UE 2014, yn ogystal â'r MPS. Mae Rheoliadau Strategaeth Forol 2010 yn diffinio dull sy'n seiliedig ar ecosystemau fel a ganlyn:

- dull sy'n sicrhau bod pwysau cyfunol gweithgareddau dynol o fewn ardal y strategaeth forol yn cael ei gadw o fewn lefelau sy'n gydnaws â chyflawni statws amgylcheddol da; a
- dull nad yw'n peryglu gallu ecosystemau morol i ymateb i newidiadau a achosir gan bobl.

3. Argyfwng hinsawdd

Mae'r ddeiseb hon yn tynnu sylw at ddatganiad Llywodraeth Cymru fod argyfwng hinsawdd yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2019, datganodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod argyfwng hinsawdd yng Nghymru. Nid oes diffiniad swyddogol o argyfwng hinsawdd, ond nod llawer o fannau sy'n datgan bod yna argyfwng hinsawdd yw bod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030.

4. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

4.1. Newidiadau i amcan a pholisïau'r sector olew a nwy

Mae amcan y sector a nodwyd yn y ddeiseb hon wedi'i ddiwygio. Cafodd amcan y sector ei aralleirio, ac mae'r amcan diwygiedig wedi'i gynnwys yn y cynllun a fabwysiadwyd, ynghyd ag is-bolisi newydd ar olew a nwy.

4.1.a. Amcan newydd y sector

Yn y cynllun a fabwysiadwyd, dyma amcan newydd y sector olew a nwy:

Gwneud y gorau o echdyniadau cynaliadwy o olew a nwy y DU er mwyn darparu cyflenwad ynni diogel, fforddiadwy a chydnerth i ddefnyddwyr masnachol a domestig tra'n bodloni nodau datgarboneiddio'r DU.

Mae'r crynodeb o'r newidiadau a wnaed, sef y ddogfen a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r cynllun a fabwysiadwyd, yn disgrifio'r newid hwn fel a ganlyn:

Mae Amcan y Sector wedi'i ailffocysu ar sicrhau'r adferiad cynaliadwy mwyaf posibl o olew a nwy, gyda'r naratif sylfaenol yn nodi'r ddibyniaeth barhaus ar olew a nwy wrth gynnal diogelwch ynni'r DU gan danlinellu pwysigrwydd

lliniaru effeithiau amgylcheddol. Mae'r naratif sylfaenol wedi'i ehangu hefyd i nodi nod polisi Llywodraeth Cymru i osgoi parhau i gloddio am danwydd ffosil mewn ardaloedd o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru

4.1.b. Yr is-bolisi newydd

Mae'r cynllun a fabwysiadwyd hefyd yn cynnwys is-bolisi newydd ar olew a nwy (O&G_01b):

Polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi parhau i echdynnu tanwydd ffosil mewn ardaloedd rhynglanwol ac aberoedd a dyfroedd cilfach arfordirol sy'n dod o fewn ardal drwydded ar y tir Cymru. Ni ddylid cefnogi ceisiadau am drwyddedau petrolewm newydd yn yr ardaloedd hyn, oni bai eu bod yn ofynnol ar gyfer diogelwch mwynloddio neu ddibenion gwyddonol. Rhaid i gynigion ar gyfer datblygu ac echdynnu olew a nwy gydag elfennau ar y tir yn yr ardaloedd hyn ddarparu tystiolaeth gadarn a chredadwy i ddangos sut maent yn cydymffurfio â Hierarchaeth Cynllunio Ynni Polisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys sut maent yn gwneud cyfraniad angenrheidiol tuag at ddatgarboneiddio'r system ynni.

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y cynllun yn cynnwys y paragraff a ganlyn am bolisi O&G_01b:

O&G_01b reflects Welsh Government policy and does not support the extraction of fossil fuels in intertidal areas and estuaries and coastal inlet waters that fall within the Welsh onshore licence area. Furthermore, the policy does not provide support for the extraction of oil and gas outside these areas with land-based elements, and any proposal must be compatible with Welsh Government's decarbonisation approach.

Serch hynny, mae polisi O&G_01a, sy'n berthnasol i ddyfroedd y môr mawr a dyfroedd y glannau sy'n destun polisi cenedlaethol Llywodraeth y DU, yn cefnogi datblygiad gweithgareddau olew a nwy. Dywed y polisi hwnnw:

Bydd cynigion ar gyfer echdynnu olew a nwy yn gynaliadwy gan gael y gorau ohono'n economaidd yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cydymffurfio ag amcanion y cynllun hwn, ac yn bodloni'n llawn y mesurau diogelu amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y prosesau statudol o ddyfarnu trwyddedau cynhyrchu a chymeradwyaethau dilynol sy'n benodol i weithgareddau. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

4.1.c. Effaith y newidiadau hyn

Cafodd y newidiadau a wnaed i'r cynllun drafft eu sgrinio. Yn ogystal, mewn achosion lle bernir bod hyn y briodol, cawsant eu hasesu fel rhan o arfarniad parhaus o gynaliadwyedd. Roedd y broses hon yn cynnwys asesiadau o'u

cydnawsedd yn erbyn y meini prawf ar newid hinsawdd yn yr arfarniad o gynaliadwyedd, sef “cyfyngu ar achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo ymaddasu”. Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiadau hyn mewn Adendwm ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r cynllun a fabwysiadwyd.

Cafodd amcan newydd y sector olew a nwy ei gategoreiddio fel un a allai fod yn arwyddocaol yn ystod proses sgrinio'r arfarniad o gynaliadwyedd, ac felly cafodd ei ailasesu. Canfu'r asesiad fod y newidiadau a wnaed i'r amcan yn effeithio ar y meini prawf ar newid hinsawdd yn yr arfarniad o gynaliadwyedd. Yn flaenorol, cafodd yr amcan yn y cynllun drafft ei asesu fel un a allai fod yn anghydawns â'r meini prawf ar newid hinsawdd. Yn groes i hynny, roedd yr asesiad o'r amcan newydd *yn nodi elfennau a oedd yn gydnaws ac yn anghydawns* â'r meini prawf ar newid hinsawdd yn yr arfarniad o gynaliadwyedd.

Yn ogystal, barnwyd y gallai'r newidiadau i bolisi O&G_01 ar olew a nwy fod yn arwyddocaol o bosibl. Canfu'r asesiad fod y cam o gynnwys yr is-bolisi, sef O&G_01b, yn newid arfarniad y polisi i gynnwys *mân* effeithiau cadarnhaol ar y meini prawf ar newid hinsawdd (ac eraill). Fodd bynnag, yn ei gyfarwydd, aseswyd fod polisi O&G_01 yn cael effeithiau negyddol cymysg a mân effeithiau cadarnhaol ar newid hinsawdd (gyda pheth ansicrwydd).

4. 2. Datganiad Llywodraeth Cymru

Roedd polisiâu'r sector olew a nwy yn nodwedd allweddol o'r datganiad llafar a wnaed gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 12 Tachwedd 2019, wrth iddi gyhoeddi bod y cynllun a fabwysiadwyd wedi'i gyhoeddi:

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at bolisiau Llywodraeth y DU lle mae materion wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU. Yn anochel, ceir meysydd lle mae gwrthgyferbyniad rhwng polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae un maes o'r fath yn ymwneud ag echdynnu olew a nwy. Nod polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi rhagor o gloddio a defnyddio tanwyddau ffosil ym mhob ardal yr ydym yn gyfrifol amdani. Gwrthwynebwn yn llwyr unrhyw echdynnu tanwydd ffosil yn y moroedd sy'n amgylchynu Cymru. Yn y cynllun, rydym ni wedi mynd ymhellach na hyn i ddweud, lle mae elfennau tir i unrhyw echdynnu tanwydd ffosil ar y môr—hynny yw, unrhyw elfennau a fyddai'n dod o dan gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru—byddwn yn gweithredu ein polisi i osgoi cloddio parhaus ar ffosilau tanwydd, gan ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i ni.

Yn ein cynllun, rydym ni hefyd wedi cynnwys manylion polisi Llywodraeth y DU, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r moroedd sy'n amgylchynu Cymru. Eu polisi yw manteisio i'r eithaf ar echdynnu tanwydd ffosil yn yr ardaloedd

arfordirol sy'n amgylchynu Cymru. Ni allai'r gwrthgyferbyniad rhwng polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod yn fwy amlwg. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, hoffwn gofnodi barn Llywodraeth Cymru bod unrhyw bolisi i annog parhau i echdynnu tanwyddau ffosil yn bolisi y byddem yn ei wrthod yn bendant.

4. 3. Llythyr Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor hwn

Ar 19 Tachwedd 2019, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor hwn ynghylch y ddeiseb hon. Mae'r llythyr hwn yn ategu'r datganiad llafar a wnaed gan y Gweinidog ar 12 Tachwedd 2019.

2. Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ~~ddadl~~ ar y cynllun drafft ar 9 Ionawr 2018.

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig weithdy i rhanddeiliaid ar 14 Mawrth 2018, a hynny er mwyn trafod y cynllun drafft. Gwnaeth y Pwyllgor 13 o argymhellion ar y cynllun drafft ym mis Ebrill 2018, a chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn ym mis Mehefin 2018.

Yn dilyn y datganiad llafar ar 12 Tachwedd 2019, pan gyhoeddwyd y ffaith bod y cynllun a fabwysiadwyd wedi'i gyhoeddi, gwnaeth Aelodau'r Cynulliad sylwadau ar y datganiad o safbwynt ei gynnwys ar danwydd ffosil. Er enghraifft, dywedodd Andrew RT Davies:

Rwy'n nodi, yn amlwg, y cyfeirio mynych at danwyddau ffosil. Rwy'n credu mai dyna yw cynnwys y pump/chwe pharagraff yn y datganiad cyfan, yn wir. Safbwynt y Llywodraeth yw hynny, ac mae'n debyg y byddwn yn anghytuno ag ef i ryw raddau, ond deallaf pam mae'r Llywodraeth yn mynegi'r farn honno.

Yn ogystal, dywedodd Llyr Gruffydd:

Dwi'n falch o weld y cyfeiriad at echdynnu tanwydd ffosil o'n moroedd. Dwi wedi codi hyn gyda chi yn flaenorol, wrth gwrs. Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu hynny, a dwi'n falch iawn o weld datganiad yn gwneud eich safbwynt chi yn glir ar hynny.

Gofynnodd Huw Irranca-Davies sawl cwestiwn ynghylch y mecanweithiau sydd ar gael i alluogi Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar y broses o echdynnu tanwydd ffosil, yn enwedig yn yr ardal alltraeth:

Ac, o ran tanwyddau ffosil—ac rwy'n croesawu'r eglurder a roddir yma yn fawr yn y datganiad hwn—a gaf i ofyn beth yw'r pwerau hynny sydd gan Lywodraeth Cymru i wrthod echdynnu tanwyddau ffosil yn y dyfroedd gwerthfawr hyn, yn enwedig yn y dyfroedd alltraeth? Pwerau dros gyfleusterau ar y tir ac yn agos at y môr, er enghraifft a ddefnyddir i gefnogi ac echdynnu gwasanaethau—fe allem ni ddefnyddio'r rheini—pwerau i ddylanwadu ar Lywodraeth San Steffan yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, sy'n eang ei chwmpas, ac sy'n rhoi dyletswyddau ar bedair Llywodraeth a gweinyddiaeth y DU i siarad â'i gilydd a chynllunio'n briodol gyda'i gilydd. Beth yw safbwynt Llywodraeth Iwerddon ar danwyddau ffosil, ac a allwn ni weithio gyda nhw? Beth mae Deddf y môr yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w wneud o ran gallu lleisio barn am y dyfroedd alltraeth hyn? Ac, ar hyn o bryd, beth yw safbwynt yr UE o ran echdynnu tanwyddau ffosil yno?

Atebodd y Gweinidog:

O ran y tanwyddau ffosil a'r olew a'r nwy, roeddwn i eisïau bod yn glir iawn ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng y ddwy Lywodraeth. Fodd bynnag, mae cydsynio i echdynnu olew a nwy yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU yn y rhan fwyaf o foroedd Cymru, fel y gŵyr yr Aelod, ond rydym ni'n gyfrifol am gadwraeth natur, rydym ni'n gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd, a dyna pam ein bod wedi sefydlu ystod eang o fesurau i sicrhau bod y camau diogelu hynny yn eu lle. Cyfarfûm â'r Gweinidog dros liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn Iwerddon pan oeddwn yn y gynhadledd ar ynni'r môr. Roedd hwn yn fater a drafodwyd yn gyffredinol, ond credaf fod angen inni sicrhau, yr holl wledydd y siaradais â nhw am y trefniadau trawsffiniol hynny, ein bod yn gwybod yn union ym mhle y mae'r pwerau gennym ni a beth y gallwn ni ei wneud gyda'r pwerau hynny. Fel y dywedaf, mae trwyddedu datblygu petroliwm ar y môr yn swyddogaeth a gadwyd yn ôl, ond credaf fod Llywodraeth y DU yn gwbl sicr ynghylch ein safbwynt.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-928
Ein cyf/Our ref LG/07371/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

19 Tachwedd 2019

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd am y ddeiseb ynghylch Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddod ni ein Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf ar 12 Tachwedd, yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'n moroedd yn gynaliadwy am yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Morol yn ymwneud â swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau sydd wedi'u cadw.

Defnyddio technoleg adnewyddadwy forol yw un o flaenoriaethau strategol y Cynllun Morol Cenedlaethol. Mae ynni adnewyddadwy'n para'n rhan hollbwysig o'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy i Gymru. I sicrhau ynni carbon isel fforddiadwy, rhaid wrth gymysgedd o dechnolegau o fathau a maint gwahanol, o rai cymunedol i brosiectau mawr a byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i gael hyd i ffyrdd i wneud Cymru'n wlad ynni carbon isel.

Ers yr ymgynghoriad y llynedd ar ein Cynllun Morol Cenedlaethol drafft, mae fy swyddogion wedi adolygu'r cynllun i adlewyrchu'n polisi o osgoi codi rhagor o danwyddau ffosil ar dir ac ym mor Cymru, lle bo Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am drwyddedu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i newid i system ynni carbon isel, gyda'r nod tymor hir o dynnu tanwyddau ffosil o'r cymysgedd ynni tra'n cadw'r effeithiau economaidd mor fach â phosib a rhoi eglurder i fuddsoddwyr gan eu hannog i fuddsoddi mewn dewisiadau carbon isel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 84

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r cyfrifoldeb am roi trwyddedau ar gyfer chwilio a chodi petrolewm yn swyddogaeth gadw, gydag Awdurdod Olew a Nwy'r DU yn gyfrifol am roi trwyddedau a'r Rheoleidddydd Petrolewm Alldraeth dros yr Amgylchedd a Datgomisiynu yn gyfrifol am reoleiddio amgylcheddol.

Yn fy Natganiad Llafar i'r Senedd, dywedais yn glir bod meysydd ym mholisi Llywodraeth Cymru a pholisi Llywodraeth y DU yn gwahaniaethu - ac un o'r rheini yw codi olew a nwy. Polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi codi a defnyddio rhagor o danwyddau ffosil ym mhob maes rydym yn gyfrifol amdano. Rydym yn gwrthwynebu'n chwynn codi unrhyw danwyddau ffosil yn y moroedd o amgylch Cymru.

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru felly yn cynnwys cymal sy'n nodi bod angen i unrhyw gynnig i godi olew a nwy yn yr ardal forol sydd ag angen seilwaith ar dir arno fod yn gydnaws â'n nod datgarboneiddio, gyda'r bwriad o ddefnyddio swyddogaethau polisi Llywodraeth Cymru i'r graddau eithaf posibl i atal codi tanwyddau ffosil ym moroedd Cymru.

Rwy'n ymwybodol o'r ddeiseb ac rwyf wedi derbyn llythyr oddi wrth Susanna Kenyon am hyn.



Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

P-05-928 Remove the words which promote the recovery of oil and gas resource from the Welsh National Marine Plan, Correspondence – Petitioner to Committee, 11.12.19

We were very encouraged by the Welsh Government's very clear statement of opposition to the extraction of fossil fuels.

We look forward to having offshore powers in Wales and would like WG to put pressure on the UK government to devolve the licensing of oil and gas offshore to the WG. We must continue to challenge the fact that in the UK the oil and gas Authority still has the mandate -and is incentivized - to push for maximum economic exploitation of carbon reserves.

On page 2 of her letter, Lesley Griffiths refers to Wales' "decarbonization approach". This must be speeded up and is too ambiguous.

We wonder how WG is scaling that pathway - if "business as usual" and economic growth continues, so will energy consumption and therefore carbon emissions if that 67% reduction (set out in your Climate Change Regulations of 2018) is based on total emissions in 2040 rather than, say, carbon emissions in 2018. We understand that the world economy may triple by 2050, so that renewables will not keep pace with demand; yet renewables must replace fossil energy or as we know, we will not leave a habitable planet to our children.

Once again, we are so grateful to you and your team for making this process easy for us.

P-05-839 Dylid troi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ynghylch llygredd aer yn gyfraith yng Nghymru a chyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan British Heart Foundation Cymru, ar ôl casglu 688 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cymru i droi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ynghylch llygredd aer yn gyfraith yng Nghymru, a chyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru.

Nid yw'r terfynau cyfreithiol presennol ar gyfer ansawdd aer yng Nghymru yn diogelu iechyd. Mae terfynau'r UE, a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU a chan Lywodraeth Cymru, yr un fath â'r terfynau canllaw uchaf a argymhellir gan y WHO ar gyfer nitrogen deuocsid (NO₂), ond maent yn llai llym na throthwy'r WHO ar gyfer llygryddion eraill sy'n niweidiol i iechyd megis deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}).

Mae Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru yn galw ar i Lywodraeth Cymru droi canllawiau'r WHO yn gyfraith yng Nghymru, a hynny drwy gyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru a fyddai'n mynd i'r afael â phrif ffynonellau llygredd aer a sicrhau bod pawb, o'r Llywodraeth a llywodraeth leol i fusnesau a'r cyhoedd, yn cydweithio i fynd i'r afael â'r argyfwng iechyd brys hwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ymchwil a ariannwyd gan Sefydliad Prydeinig y Galon oedd yr ymchwil gyntaf i brofi bod dod i gysylltiad ag aer o ansawdd gwael yn y tymor byr a'r tymor hir yn gallu achosi problemau cardiofasgwlaidd difrifol a'u gwneud yn waeth. Cadarnhaodd ein hymchwil fod cysylltiad clir rhwng clefyd cardiofasgwlaidd a dod i gysylltiad â gronynnau tra mân PM_{2.5}, a bod anadlu gronynnau mân yn gallu cynyddu'r risg i grwpiau bregus o gael trawiad ar y galon neu strôc o fewn 24 awr.

Amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod llygredd aer ym 2017 yn cyfrannu at 2,000 o farwolaethau cynnar yng Nghymru. Gorchynnwyd i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â lefelau anghyfreithlon o nitrogen deuocsid, ond nid oes eto gynllun i fynd i'r afael â deunydd gronynnol, ac ychydig iawn

o fanylion sydd ynghylch sut y bydd y Llywodraeth yn gwella'r gwaith monitro llygryddion ledled Cymru.

Byddai Deddf Aer Glân newydd i Gymru yn:

- Sicrhau bod cyfraith Cymru yn defnyddio canllawiau'r WHO ar gyfer llygredd aer;
- Cyflwyno *ffioedd* Barthau Aer Glân mewn ardaloedd sy'n torri neu sy'n agos at y terfynau ar gyfer nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol, a neilltuo'r arian ar gyfer gwella ansawdd yr aer ymhellach;
- Sicrhau bod seilwaith a thechnoleg ar waith fel y gallai mwy o bobl ddefnyddio Cerbydau Allyriadau Tra Isel a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Buddsoddi mewn gwell monitro llygredd ledled Cymru, a sicrhau bod gwybodaeth am y risgiau i iechyd ar gael i grwpiau bregus;
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith llosgi coed yn y cartref ac o'r camau y gellir eu cymryd i'w lleihau.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-839
Ein cyf/Our ref LG/07474/19

Janet Finch-Saunders AM
Chair of the Petitions Committee

Government.Committee.Business@gov.wales

November 2019

Dear Janet

Thank you for your letter of 19 November, regarding Petition P-04-839 which asks for adoption of World Health Organisation (WHO) Guidelines and introduction of a Clean Air Act for Wales.

Welsh Government will consult on the Clean Air Plan for Wales this December, with a view to publishing the final Plan in spring 2020. The aim of the Clean Air Plan for Wales is to improve air quality to reduce the burden of poor air on human health, biodiversity, the natural environment and the economy in Wales.

The publication of the Plan was delayed to ensure we had robust evidence to understand the air pollution challenge and remedial actions required to improve air quality in Wales. We have also had to place a focus on managing immediate challenges such as addressing exceedances of nitrogen dioxide in Wales and ensuring preparedness for Brexit.

The Plan will support delivery of the Prosperity for All commitment to reduce emissions and deliver vital improvements in air quality to support healthier communities and better environments. It is also our first step to delivering a Clean Air Act for Wales.

You will be aware, the First Minister identified the development a new Clean Air Act in his leadership Manifesto to ensure our children can go to school, be active and play outside safely without fear of respiratory problems, such as asthma, because of pollution levels in some of our towns and cities.

The Clean Air Plan will provide further detail around our approach to delivering the Clean Air Act. A project is in development to ensure we have an Act which enhances existing legislation and brings forward new legislation to deliver air quality improvements in Wales.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@lyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 89

The aim of the Act will be to deliver the First Ministers' Manifesto commitment and reduce the burden of poor air quality on human health, our economy, biodiversity and the natural environment. The Act may also support wider actions to address the climate emergency and support environmental growth.

We intend to consult on and publish a White Paper before the end of this Assembly Term on legislative proposals to improve air quality in Wales.

A handwritten signature in blue ink that reads "Regards Lesley". The word "Regards" is written in a cursive style, and "Lesley" is written below it in a similar cursive style.

Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



British Heart Foundation Cymru Petition

Response to Minister's Letter to the Petitions Committee 26 November 2019

10 December 2019

Dear Committee,

We are pleased that the Minister has set out the details for the Clean Air Plan which we note has been published today.

We will certainly take the time to respond to the consultation and hope that the final plan will enable the necessary, bold action which is required to improve public health from the unnecessary burden of air pollution.

However, we are disappointed at the timescales given for the introduction of a Clean Air Act. Whilst we understand the importance of consulting and ensuring effective and robust legislation is produced in a timetable which allows for scrutiny, the production of a White Paper before the 2021 Welsh elections is a blow to the many people who experience poor health due to air pollution.

Any number of things, including a change of Government could lead to the White Paper not continuing its progression into a Bill in the Sixth Assembly, and we feel that an Act is imperative to ensure the priority of resources to tackling such an important health crisis.

We would echo the calls of the Chair of the Cross Party Group on A Clean Air Act today in Plenary, who called for an extra sitting day for the rest of the Assembly Term to deliver this pivotal legislation.

We hope that the Committee also feels that the importance of delivering a Clean Air Act in Wales prior to Summer 2021 is a matter of great importance.

As ever, we are happy to answer any further questions the committee may have on this issue.

A handwritten signature in black ink that reads 'Emma Henwood'.

Emma Henwood

Policy and Public Affairs Manager
BHF Cymru

Eitem 3.2

P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Changing Minds Campaign Group, wedi iddi gasglu 1,387 o lofnodion ar-lein a 2,865 ar bapur, sef cyfanswm o 4,252 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gydnabod y ffaith nad yw'r lefel bresennol o gyfranogiad pobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau yn caniatáu i grwpiau ymylol gael eu cynnwys yn y broses honno. Rydym yn gofyn am adolygiad o'r polisïau a'r canllawiau sydd ar waith, ynghyd ag argymhelliad bod canllawiau newydd gorfodol ar waith ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer pobl ifanc.

Mae angen i holl bobl ifanc Cymru gael y cyfle i leisio barn a rhannu eu profiadau mewn modd ystyrlon, a hynny at ddibenion llunio'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi. Rydym yn gofyn i chi gefnogi'r broses o hyrwyddo newidiadau a fydd yn arwain at gyflawni'r nod hwn. Fel pobl ifanc, rhaid inni gael y cyfle i rannu ein syniadau a'n safbwyntiau ynghylch y prosiectau y mae arnom eu hangen yn ein hardaloedd ni.

Ar hyn o bryd, dim ond cynghorau/fforymau ieuenctid sy'n destun ymgynghoriadau, ac nid yw'r drefn hon yn cynrychioli'r rheini sy'n ei chael yn anodd bod yn rhan o fforymau o'r fath, fel yr un o bob pump o oedolion ifanc sydd ag anhwylder iechyd meddwl y gellir gwneud diagnosis ohono. Mae angen llwyfan ar y bobl ifanc hynny na fyddant, o bosibl, yn gallu cymryd rhan yn y cynlluniau presennol yn sgil eu problemau iechyd meddwl, er mwyn iddynt gael cyfle i leisio barn ar wasanaethau a phrosiectau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Rydym yn grŵp o bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r Prosiect Newid Meddyliu, sy'n cael ei gydlynu gan sefydliad Newport Mind. Disgwylir i'r prosiect hwn gollu arian ym mis Tachwedd. Yn sgil y sefyllfa hon, rydym wedi bod yn dysgu am y broses gomisiynu, sydd wedi arwain at greu'r ddeiseb hon ac i'n hymgyrch ehangach, sef #changeit. Bydd cynnwys pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl yn uniongyrchol y

broses gomisiynu yn hwyluso'r broses o deilwra gwasanaethau ac yn gwella hyder y bobl a dargedir gan y gwasanaethau a ddarperir.

"Roedd y cyfle i gyfrannu at y prosiect hwn yn gyfle imi wir ddeall pryderon pobl ifanc a'r problemau y maent yn eu hwynebu. Heb fod y pryderon hyn yn cael eu codi a'u cynnwys wrth lansio unrhyw bolisi sy'n effeithio ar bobl ifanc, bydd unrhyw fenter sy'n effeithio arnynt yn ddiffygiol".

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r ddogfen 'Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru' gan Gomisiynydd Plant Cymru yn fframwaith ar gyfer ymgorffori hawliau plant mewn gwasanaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc. Mae'r rhain yn ganllawiau, ac felly nid ydynt yn orfodol. Maent yn seiliedig ar Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), sy'n amlinellu hawl plant i fod yn rhan o greu a gweithredu polisiau—yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar eu demograffig nhw.

Mae Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2016/2017 (yr Adroddiad) yn tynnu sylw penodol at y ffaith bod y Comisiynydd yn dymuno gweld pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio yn y broses gomisiynu i raddau mwy helaeth.

Mae'r canllawiau cyfredol ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc yng Nghymru wedi'u cynnwys yn nogfen 'Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru Arfer Da 2016', ymhlith pethau eraill. Mae'r saith 'safon graidd' sydd wedi'u nodi yn y canllaw yn gamau cychwynnol ardderchog.

O ran y safonau a'r dulliau hyn, er eu bod yn cael eu bodloni'n rhannol mewn rhai awdurdodau yng Nghymru, mae'r ffaith nad ydynt yn orfodol yn golygu nad ydynt yn ddigonol ar gyfer sicrhau atebolrwydd ynghylch yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Rydym yn ceisio sicrhau bod gan bobl ifanc o grwpiau ymylol lais yn y broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru o safon ragorol a chyson. Mae ein deiseb yn cyd-fynd ag Argymhelliad 10 o'r adroddiad 'Cadernid Meddwl', sy'n tynnu sylw at lefelau'r gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cael

eu darparu i bobl ifanc ar hyn o bryd, ac yn ategu'r gwaith a wneir gan y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Heb newid y canllawiau presennol, bydd pobl ifanc ledled Cymru yn parhau i gael eu gwthio i'r cyrion. Yn benodol, bydd y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anghenion ychwanegol, sef y rhai nad ydynt, o bosibl, yn gallu cymryd rhan yn y mentrau cyfranogiad ieuenctid cyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd, yn parhau i'w chael yn anodd lleisio barn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Casnewydd
- Dwyrain De Cymru



Ein cyf/Our ref VG/07968/19

Janet Finch-Saunders AM
Chair, Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

22 November 2019

Dear Janet,

Thank you for your letter of 30 September regarding the Petition P-05-842 – Give young people a voice when commissioning local services in Wales.

Enhancing Equality and Human Rights in Wales

In response to calls from many stakeholders for Welsh Government to take action to safeguard equality and human rights, particularly in the context of Brexit, several strands of work are being taken forward:

- Commencing the socio-economic duty in Part One of the Equality Act 2010, to require certain Welsh public bodies to consider the impact of their strategic decisions on the poorest people and groups.
- Reviewing the Welsh Specific Duties (currently set out under the 2011 Regulations) under the Public Sector Equality Duty (PSED), to ensure they are up to date, proportionate and effective.
- Working closely with the Equality and Human Rights Commission (EHRC) in Wales to review PSED monitoring and reporting arrangements, so that equality data and reports from Welsh public bodies are easy to find and understand.
- Commissioning research on wider options to strengthen and advance equality and human rights in Wales, which, among other things, will consider the possible incorporation of UN conventions into Welsh law and whether there may be a need for fresh legislation, such as a Human Rights Bill for Wales. This research is expected to report by the end of 2020.
- All of these strands of work are being overseen by a Strengthening and Advancing Equality and Human Rights Ministerial steering group chaired by the Deputy Minister and Chief Whip.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- The Steering Group consists of key stakeholders and is chaired by the Deputy Minister and Chief Whip. The Deputy Minister and Chief Whip has been asked to agree that two members of the Youth Parliament be invited to sit on the working group to ensure that young people have a voice in this ground breaking piece of Human Rights legislation.

In addition to this, action is being undertaken to promote equality in relation to the Protected Characteristics set out in the Equality Act 2010, for example, the Gender Equality Review, the Action on Disability: The Right to Independent Living' Framework, and the overarching Welsh Government Strategic Equality Action Plan 2020-2024 (taking account of the Equality and Human Rights Commission's "Is Wales Fairer? 2018") which is currently out to consultation.

Focussing on Gender equality for a moment, we already have world-leading equalities legislation in place with progress made. The Welsh Government is committed to work to improve the lives of women and girls and achieve equality of opportunity for all.

